Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ifor Bach
# Windsor Way
# Abertridwr
# Caerphilly
# CF83 4AB

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Ifor Bach ysgol ym mhentref Abertridwr, ar gyrion tref Caerffili. Mae'n gwasanaethu ardal Abertridwr a Senghennydd a'r cyffiniau yn bennaf. Daw o dan ofal awdurdod lleol Caerffili. Mae'r ysgol yn derbyn plant o'r holl ystod allu ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Ar hyn o bryd, mae 275 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae'r niferoedd disgyblion wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf.

Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a dysgu yn yr ysgol a disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Daw 98% o ddisgyblion o gartrefi ble ni siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Mae tua 28% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae tua 19% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac mae ychydig iawn â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2005 ac roedd hi'n bresennol pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2008. Ers hynny, bu newid sylweddol o ran staff.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Ifor Bach yn 2013-2014 yw £2,951. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghaerffili yw £5,118 a'r lleiafswm yw £2,645. Mae Ysgol Ifor Bach yn safle 49fed o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Ifor Bach yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ar fynediad i'r ysgol;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu gwersi ac yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gyson dda;
- safonau medrau allweddol y disgyblion yn uchel;
- pob disgybl yn dangos cwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr;
- safon yr addysgu yn gyson dda; a bod
- gan yr ysgol ethos cynhwysol a gofalgar lle mae'r disgyblion yn hapus ac yn awyddus i ddysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Ysgol Ifor Bach yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a chenhadaeth gref yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a hapusrwydd a lles disgyblion;
- holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm;
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r ysgol a'i pherfformiad;
- gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen iddynt eu gwella;
- partneriaeth gref yn bodoli gyda'r rhieni a'r gymuned; a
- bod cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau.

## Argymhellion

A1 Gwella ysgrifennu creadigol estynedig yn y ddwy iaith

A2 Codi safonau llawysgrifen a chyflwyniad ar draws yr ysgol

A3 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ymateb i sylwadau ysgrifenedig yr athrawon

A4 Gosod targedau heriol unigol i bob disgybl

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn amrywio'n fawr. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn, yn ôl eu gallu, ym mhob un o'r meysydd dysgu.

Mae safonau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Gymraeg yn gadarn, gyda bron pob disgybl yn siarad yn gynyddol gywir a hyderus erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Maent yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau gan athrawon ac yn barod i gyfrannu i drafodaethau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n *e*ffeithiol.

Ar y cyfan, mae medrau darllen y disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gynyddol gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn unol â'u hoed a'u gallu yn y ddwy iaith. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r goreuon yn darllen yn synhwyrol a chywir gan ddefnyddio goslef llais yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Maent yn sillafu ac yn ysgrifennu yn gynyddol gywir ac yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn dda ar draws y cwricwlwm. Gallant ysgrifennu darnau annibynnol mewn amrywiaeth o destunau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg at wahanol ddibenion yn effeithiol. Maent yn defnyddio paragraffau ac yn atalnodi yn gywir yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu storïau estynedig yn y ddwy iaith. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad y disgyblion yn amrywiol, ac ar adegau gwelir gwaith blêr yn y llyfrau.

Ar y cyfan, mae medrau disgyblion yn uchel ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd, medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn bwrpasol yn eu gwaith ar draws y pynciau. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen mae'r disgyblion yn defnyddio'u medrau i ddatrys problemau yn y ddarpariaeth barhaus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o strategaethau rhifedd ac mae'r goreuon yn medru cymhwyso'r wybodaeth hon ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cael eu herio'n ddigonol ar draws yr holl fedrau.

Mae medrau rhifedd yn cael eu datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfnhau eu dealltwriaeth o rifedd yn effeithiol yn y ddarpariaeth barhaus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn defnyddio iaith fathemategol yn gynyddol gywir ac erbyn diwedd y cyfnod gallant drafod a datrys problemau heriol yn hyderus, er enghraifft creu fformiwlâu cymhleth.

Yn 2013, mae perfformiad y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig (deilliant 5 neu uwch) a'r deilliant uwch (deilliant 6 neu uwch) mewn medrau llythrennedd, mathemateg a phersonol yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaledd perfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r canlyniadau hefyd yn is mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chanran tebyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, a'r Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar wahân yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y cyfan, mae hyn yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu. Mae'r canran sy'n cyrraedd lefelau sy'n uwch na'r disgwyl hefyd yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim.

Fel grŵp, nid yw'r bechgyn ar y cyfan yn perfformio gystal â'r merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cyfranogi'n gydwybodol a brwdfrydig mewn gwersi.

Mae safon ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn uchel ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn dangos parch at eraill yn y gwersi ac yn ystod amser chwarae.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r holl ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd er mwyn cadw'n iach. Mae bron pob un yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at fwyta ac yfed yn iach.

Mae'r disgyblion yn manteisio'n dda ar gyfleoedd priodol i fynegi barn drwy gyfrannu at gynllunio gweithgareddau'r dosbarth yn ystod gwaith thematig. Maent yn feddylgar wrth wneud penderfyniadau priodol ar y cyngor ysgol a'r cyngor eco, ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion yr ysgol fymryn yn is na chyfraddau'r awdurdod lleol a Chymru. Gosododd presenoldeb yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg o ran lefelau cinio am ddim mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae prydlondeb hefyd yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r holl athrawon yn cyd-gynllunio'n ofalus gan sicrhau bod y gweithgareddau'n ysgogol ac yn hybu dysgu cyffrous. Darperir dilyniant clir o ran parhad a chynnydd rhwng y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ac mae'r athrawon yn datblygu

medrau cyfathrebu a darllen y dysgwyr yn effeithiol.  Telir sylw manwl i gynllunio’r holl fedrau ar draws y cwricwlwm ac mae hyn yn sicrhau eu datblygiad yn effeithiol iawn.

Mae’r holl athrawon yn darparu ystod eang a chyfoethog iawn o brofiadau dysgu priodol, llwyddiannus ac ysgogol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion.  Mae’r gweithgareddau trawsgwricwlaidd a’r cyfleoedd allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae’r ddarpariaeth gyfoethog ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig yn greiddiol i holl waith a bywyd yr ysgol.  Mae hon yn un o gryfderau’r ysgol.  Mae’r athrawon yn hyrwyddo hanes lleol a diwylliant Cymru yn dda iawn ac mae ymwybyddiaeth y disgyblion o’u diwylliant yn gadarn.  Mae holl staff yr ysgol yn gwbl gynhwysol ac yn hybu meithrin parch at eu hardal a’u thraddodiadau, er enghraifft y gwaith ar danchwa Senghennydd a Thryweryn.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy yn effeithiol iawn.  Manteisir i’r eithaf ar natur gynaliadwy'r adeilad a’r safle.  Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael lle amlwg ym mywyd yr ysgol.  Drwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau o safon uchel, datblygir ymwybyddiaeth disgyblion o fyw mewn byd cyfoes, eang mewn modd cynaliadwy yn effeithiol iawn.  Mae’r ysgol yn darparu gwersi Ffrangeg ac mae cysylltiadau cadarn gydag ysgolion yn Kuala Lumpur yn hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o’u lle yn y byd ac o amrywiol ddiwylliannau.

**Addysgu:  Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol.  Mae gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel a defnyddiant amrywiaeth dda o ddulliau dysgu a gweithgareddau diddorol i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion.

Mae’r gwersi wedi eu cynllunio’n fanwl ac yn briodol.  Defnyddia’r holl athrawon ystod helaeth o adnoddau pwrpasol lliwgar, gan gynnwys offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), yn llwyddiannus i gefnogi’r dysgu ac addysgu.  Mae athrawon a disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn astudio thema yr Ail Ryfel Byd ac maent yn gwisgo dillad y cyfnod yn y gwersi er mwyn uniaethu â’r cyfnod hwnnw.  Mae’r athrawon yn symud y gwaith yn ei flaen ar gyflymder addas yn y gwersi ac, ar y cyfan, maent yn gosod heriau priodol i ddisgyblion.  Mae’r addysgu thematig yn effeithiol.  Fodd bynnag, ar adegau, mae’r gorddefnydd o daflenni yn llesteirio cyfleoedd disgyblion i ysgrifennu’n annibynnol ac yn estynedig yn y Cyfnod Sylfaen.  Nid yw disgwyliadau’r athrawon a gweithgareddau sy’n cael eu paratoi bob amser yn ddigon heriol i’r plant uwch eu gallu yng nghyfnod allweddol 2.

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr oedolion a’r disgyblion ymhob dosbarth.  Mae’r athrawon yn modelu iaith glir ac yn drilio iaith newydd yn gyson.  Mae hyn yn cyfrannu’n sylweddol at ddatblygiad iaith lafar dda'r disgyblion.  Mae’r staff cynorthwyol yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi’r dysgu ar draws yr ysgol, gan sicrhau eu bod yn cefnogi anghenion y disgyblion yn dda.

Mae gan yr athrawon strategaethau asesu ar gyfer dysgu defnyddiol. Maent wedi eu sefydlu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu'r amcanion ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae'r holl athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson a thrwyadl, gan gynnig sylwadau adeiladol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd na her i ddisgyblion ymateb i'r sylwadau hyn. Nid yw'r arfer o osod targedau heriol i ddisgyblion yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol iawn ac mae ganddi weithdrefnau asesu hylaw ar waith. Mae hwn yn un o gryfderau'r ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd helaeth o'r data i fonitro cynnydd y disgyblion ac i ddarparu rhaglenni addysg ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth briodol am gynnydd eu plant trwy gyfarfodydd rhieni rheolaidd. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn briodol. Maent yn rhoi proffil clir o gynnydd a lles eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amryw o gyfleoedd effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae bron pob disgybl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Maent yn deall pwysigrwydd gwerthoedd fel gonestrwydd a pharch er mwyn gweithio'n llwyddiannus fel cymuned.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol da iawn ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol y disgyblion. Mae'n cydweithio'n agos iawn gydag asiantaethau allanol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn elwa o'r cymorth perthnasol sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth seicolegol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Caiff pob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei gwahaniaethu'n briodol. Gwna'r ysgol ddefnydd llwyddiannus o fap darpariaeth i dracio cynnydd pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol. Defnyddir data profion safonol ac asesiadau parhaus i adnabod anghenion y disgyblion hyn yn effeithiol. Trwy raglenni ymyrraeth, fe ddarperir y gefnogaeth briodol yn llwyddiannus gan athrawon a chymorthyddion. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir er mwyn sicrhau cynnydd. Gwerthusir y rhain yn wythnosol gan yr athrawon yn effeithiol. Mae trefniadau addas yn eu lle i adolygu'r cynlluniau ddwywaith y flwyddyn. Mae'r trefniadau yn cynnwys y disgyblion a'u rhieni yn briodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Ifor Bach yn ysgol hapus. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion. Mae hyn yn galluogi pawb i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a

goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd yn llwyddiannus, ac yn talu sylw i gyfraniad pob disgybl.

Mae amgylchedd dysgu deniadol a lliwgar yn yr ysgol, gydag enghreifftiau o waith y disgyblion yn cael eu harddangos yn effeithiol.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'r adnoddau awyr agored i gwrdd ag anghenion y Cyfnod Sylfaen ac i hybu gwybodaeth y disgyblion am gynaliadwyedd.  Mae'r toiledau o safon uchel a chaiff adeilad a thir yr ysgol eu cadw'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn gadarn ac effeithiol iawn a cheir ymdeimlad cryf o dîm ym mhob agwedd ar waith yr ysgol.  Mae holl aelodau'r gymuned addysgol yn meddu ar weledigaeth eglur a chenhadaeth gref.  Mae hyn yn sicrhau bod gan yr ysgol gyfeiriad eglur a diwylliant sy'n anelu at safonau uchel ar gyfer pob disgybl.  Mae'r uwch dîm rheoli yn sicrhau bod systemau cadarn ar waith i adnabod anghenion pob disgybl, sicrhau cefnogaeth addas a monitro effaith.  Gwneir defnydd effeithiol iawn o ystod eang o ddata fel sail i bob cynllunio, gweithredu a monitro.

Mae'r corff llywodraethol yn gydwybodol ac ymroddgar ac yn meddu ar wybodaeth drylwyr o'r ysgol.  Mae'r llywodraethwyr yn defnyddio nifer o ffynonellau i adnabod y safonau a'r materion i'w datblygu, gan gynnwys barn y cyngor ysgol wrth fonitro a herio'r gweithredu.

Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd penodol sy'n sicrhau bod pob un yn deall eu rôl o ran gweithredu cynlluniau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn dangos ymrwymiad clir i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol.  Mae wedi rhoi cychwyn priodol ar weithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a gwelir yr effaith ar safonau gwaith y disgyblion.  Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n briodol.  Rhennir cyfrifoldeb rheoli perfformiad pob aelod o'r staff rhwng aelodau'r uwch dim rheoli ac mae targedau gwelliant gan bawb.  Maent hefyd yn derbyn hyfforddiant priodol fel bo'r angen.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth eglur o gryfderau a sialensiau'r ysgol.  Mae'r broses hunanarfarnu wedi ei seilio ar dystiolaeth addas a phwrpasol ar draws holl agweddau datblygiad addysgol a phersonol y disgyblion.  Defnyddir ystod eang o ddata i gefnogi a herio'r farn ac ystyrir y canfyddiadau yn effeithiol gan yr ysgol gyfan.  Mae trefniadau hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i farn y disgyblion a'r rhieni.

Mae'r prosesau effeithiol ar gyfer monitro gwaith disgyblion, craffu ar lyfrau, dadansoddi data ac arsylwi gwersi yn nodwedd gref o waith yr ysgol ac yn ganolog i'r drefn o godi safonau.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen weithredol, ac fe'i seiliwyd ar gyfraniadau priodol gan y llywodraethwyr, yr uwch dim rheoli, arweinyddion pwnc a gweddill y staff. Mae'r blaenoriaethau wedi eu hariannu'n briodol ac maent yn cael eu monitro yn drwyadl i arfarnu effaith ar y safonau.

Mae holl faterion ôl-arolygiad 2008 wedi derbyn sylw dyledus ac mae'r gwaith yn dangos effaith gadarnhaol ar safonau. Er hyn, mae'r angen i gau'r bwlch rhwng bechgyn a merched yn parhau ac yn derbyn sylw parhaus.

Mae ymglymiad mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol mewnol ac allanol yr ysgol yn gadarn ac yn arwain at godi safonau. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cydweithio'n dda ag ysgolion eraill y clwstwr i greu cynllun llefaredd ac adnoddau darllen yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn codi safonau iaith lafar y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at y ddarpariaeth ac at y safonau da y mae'r disgyblion yn eu cyflawni. Mae'r bartneriaeth gref gyda'r rhieni yn cyfrannu'n effeithiol iawn at wireddu nodau a gwelliannau'r ysgol. Nodwedd arbennig o'r bartneriaeth yw'r gefnogaeth effeithiol a gynigir i'r rhieni. Mae hyn yn gymorth penodol i sefydlu perthynas gadarn, a chynnwys rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau.

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau niferus iawn â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar brofiadau dysgu'r disgyblion ac yn meithrin eu hymwybyddiaeth o'u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu iddi.

Mae cyswllt agos iawn rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin lleol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion y clwstwr yn y broses o gymedroli a chyd-safoni asesiadau parhaus. Mae'r ysgol hefyd yn elwa o gydweithio'n agos ar nifer o flaengareddau gyda chlystyrau eraill yn ogystal â'r teulu o ysgolion a gwasanaethau cymorth yr awdurdod addysg.

Mae rhaglenni pontio effeithiol iawn yn bodoli i sicrhau bod disgyblion yn parhau â'u cynnydd o'r cynradd i'r ysgol uwchradd leol. Mae cydweithio agos y staff yn effeithiol iawn ac yn dylanwadu'n gryf ar safonau'r disgyblion ac yn hybu'r arfer o gyfnewid arferion addysgu da.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae adnoddau ariannol a staffio'r ysgol yn cael eu rheoli'n effeithiol i gefnogi'r dasg o godi safonau pob disgybl.

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a chymorthyddion dysgu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o arbenigedd pob un ohonynt, ac mae'r ymdeimlad o dîm addysgu yn nodwedd gref yn yr ysgol. Rhoir cefnogaeth effeithiol i'r athrawon gan gymorthyddion dosbarth. Maent oll yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn effeithiol.

Mae’r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol. Mae athrawon yn defnyddio’u hamser yn dda i gynllunio ac asesu er budd dysgwyr, ac i ddatblygu a monitro’u meysydd, yn ôl yr angen.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli yn briodol i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd ar y cwricwlwm. Mae ansawdd uchel yr adeilad yn cyfrannu’n gadarnhaol at y broses ddysgu.

Rheolir gwariant yn ofalus gan y pennaeth a’r corff llywodraethol. Dosrannir arian yn briodol ar gyfer blaenoriaethau’r ysgol o fewn y cynllun datblygu ysgol. O ystyried y deilliannau da a’r defnydd darbodus o’r cyllid, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, roedd perfformiad y disgyblion sy’n cyflawni’r deilliannau disgwyliedig (deilliant 5 neu uwch) a’r deilliannau uwch (deilliant 6 neu uwch) yn asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen ychydig yn is na chyfartaledd perfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Roeddent hefyd yn is mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chanran tebyg o ddisgyblion â’r hawl i dderbyn cinio am ddim a’r cyfartaledd Cymru gyfan. Roedd perfformiad y disgyblion yn 2013 yn llawer uwch o gymharu â’u perfformiad yn 2012. Yn 2013, roedd yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer y dangosydd y Cyfnod Sylfaen, a’r deilliannau disgwyliedig mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol, ond yn y 50% is am ddatblygiad personol a chymdeithasol. Yn 2012, roedd yn y 50% is mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a’r 25% isaf ar gyfer y deilliannau disgwyliedig eraill. Ar gyfer y deilliannau uwch yn 2012, roedd yr ysgol yn 50% uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, yn y 50% is ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol ac yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol.

Dros gyfnod o bedair blynedd, roedd perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 2 yn amrywio’n fawr o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd y perfformiad yn symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer y dangosydd pwnc craidd a’r canran sy’n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) a’r lefel uwch (lefel 5 neu uwch) yn y pynciau craidd ar wahân. Roedd perfformiad y disgyblion yn 2013 ar y cyfan yn llawer uwch o gymharu â’u perfformiad yn 2012. Yn 2012, roedd y canlyniadau lawer yn is na chanlyniadau’r teulu a Chymru, ar y cyfan. Yn 2013, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel yn uwch na’r disgwyl ar y cyfan yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg a’r cyfartaledd Cymru gyfan.

Dros dreigl amser, nid oes patrwm cyson rhwng cyrhaeddiad disgyblion sydd â’r hawl i brydau am ddim a’u cymheiriaid. Ar y cyfan, roedd perfformiad merched yn well na’r bechgyn o gymharu’r meincnodau cenedlaethol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 96 | 95<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 95<br>99%<br>92% | 1<br>1%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 96 | 94<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 96 | 96<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 96 | 96<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 93 | 90<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 96 | 96<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 96 | 96<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 94 | 93<br>99%<br>91% | 1<br>1%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 96 | 96<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 89 | 82<br>92%<br>77% | 7<br>8%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 93 | 91<br>98%<br>84% | 2<br>2%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 50 | 32 | 16 | 0 | 1 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 32% | 0% | 2% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 51 | 41 | 9 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 18% | 0% | 2% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 51 | 43 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 50 | 30 | 17 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 60% | 34% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 51 | 22 | 24 | 2 | 1 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 43% | 47% | 4% | 2% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 51 | 31 | 16 | 1 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 61% | 31% | 2% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 51 | 36 | 15 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 51 | 28 | 16 | 3 | 0 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 55% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 51 | 35 | 11 | 3 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 69% | 22% | 6% | 2% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 51 | 32 | 16 | 3 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 63% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 51 | 38 | 12 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 75% | 24% | 0% | 2% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 50 | 22 | 14 | 3 | 0 | 11 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 44% | 28% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 50 | 26 | 18 | 6 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 52% | 36% | 12% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 51 | 32 | 15 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 29% | 4% | 2% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 51 | 31 | 14 | 1 | 0 | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 61% | 27% | 2% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 50 | 35 | 14 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 70% | 28% | 2% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 41 | 15 | 15 | 0 | 0 | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 37% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 50 | 32 | 16 | 2 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 53% | 39% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 50 | 35 | 11 | 1 | 1 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 70% | 22% | 2% | 2% | | |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Owenna Davies | Arolygydd Tîm |
| John David Dyer | Arolygydd Lleyg |
| Mair Gwynne Carruthers | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sarah Edmunds | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.